**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

14 Hydref 2022

Estyniad ar gyfer adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon

Annwyl Lywydd,

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon yn ei gyfarfod ddydd Iau 13 Hydref 2022. O ystyried y goblygiadau difrifol sy'n deillio o'r Bil, roedd yr Aelodau o'r farn nad yw'r amserlen bresennol ar gyfer adrodd yn ddigonol i ganiatáu ystyriaeth lawn o'r materion yn gyffredinol, nac ychwaith ar gyfer ystyriaeth bellach o'i effaith ar Gymru. Mae'r Aelodau yn awyddus i gynnal sesiynau tystiolaeth gyda gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â rhanddeiliaid sy'n gweithio ym maes cysylltiadau rhyngwladol.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn teimlo mai ychydig iawn o amser a ddarperir ar gyfer gwaith craffu o gymharu â'r amser sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y Bil yn San Steffan ar 13 Mehefin 2022 ond ni chafodd ei gyfeirio at Bwyllgorau'r Senedd tan 4 Hydref 2022. Er bod y Pwyllgor yn derbyn rhesymau Llywodraeth Cymru dros yr oedi, mae wedi cael cryn dipyn o amser i ystyried goblygiadau'r Bil o gymharu â'r Senedd.

Am y rhesymau a amlinellwyd, hoffai'r Pwyllgor ofyn am dair wythnos ychwanegol i'r terfyn amser adrodd cychwynnol, sef 7 Tachwedd 2022.

Yn gywir

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.